# Argyfwng Coronafeirws (Covid-19)
# Arweiniad i Rieni a Disgyblion - Defnyddio Cludiant Ysgol o 29 Mehefin 2020

Mewn ymateb i'r argyfwng pandemig Coronafeirws/Covid-19 byd-eang, caeodd Llywodraeth Cymru ysgolion i bob disgybl yng nghanol mis Mawrth, ar wahân i blant gweithwyr allweddol.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y bydd ysgolion yn ailagor o 29 Mehefin ar gyfer pob grŵp blwyddyn er mwyn caniatáu i ddisgyblion 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Bydd disgyblion yn mynychu ysgolion mewn grwpiau bach oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol, a disgwylir na fydd gan unrhyw ysgol fwy na thraean y disgyblion yn yr ysgol ar unrhyw adeg.

Mae'r cynlluniau a amlinellir isod yn nodi sut y bydd cludiant ysgol yn Abertawe yn ailgychwyn a bydd y cynlluniau hyn yn cael eu diweddaru'n amodol ar ganllawiau pellach gan y Llywodraeth, a'u hailddosbarthu wrth i'r rhaglen dychwelyd i'r ysgol symud yn ei blaen. Dylai'r arweiniad hwn gael ei ddarllen a'i fabwysiadu gan bob disgybl sy'n defnyddio gwasanaethau Cludiant Ysgol a ddarperir gan y cyngor.

Dylai rhieni a disgyblion fod yn ymwybodol o gyngor cyffredinol y Llywodraeth sy'n nodi y dylem gadw'n pellter oddi wrth bobl y tu allan i'n haelwydydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn argymell cadw pellter o 2 fetr lle y bo hynny'n bosib. Maen nhw'n dweud mai'r peth allweddol yw osgoi bod yn rhy agos at bobl eraill am fwy na chyfnod byr o amser, cymaint ag y gallwch chi. Mae'r perygl o heintio'n cynyddu po agosaf yr ydych at berson arall sydd â'r firws a faint o amser rydych chi'n ei dreulio mewn cysylltiad agos: rydych yn annhebygol iawn o gael eich heintio trwy gerdded heibio i berson arall.

Maen nhw hefyd yn dweud, os oes angen i chi fod yn agos at bobl eraill, dylech osgoi cyswllt corfforol ac wynebu oddi wrth bobl eraill, a chadw'r amser rydych chi'n ei dreulio yn agos at bobl eraill mor fyr â phosib. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'r arwynebau rydych chi neu eraill yn eu cyffwrdd.

Gellir dod o hyd i Ganllawiau Llywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi at ailddechrau defnyddio gwasanaethau cludiant ysgol trwy ddefnyddio'r dolenni isod:

https://llyw.cymru/teithion-ddiogel-coronafeirws-canllawiau-ir-cyhoedd

Mae'r adrannau isod yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn wrth deithio ar Gludiant Ysgol:

- **Atodiad A -** Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion Prif Ffrwd
- **Atodiad B -** Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Arbennig)

Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u datblygu'n seiliedig ar ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd yr asesiadau risg gan Swyddogion Iechyd a Diogelwch a Chludiant y cyngor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Thîm Cludiant ysgol y cyngor drwy:

E-bost : Cludiant.ysgol@abertawe.gov.uk
Ffôn: 01792 636347/636348 (cludiant ar gyfer disgyblion prif ffrwd)
01792 636328/636593 (cludiant ar gyfer disgyblion ADY)

**Atodiad A**

# Arweiniad i Rieni a Disgyblion - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion Prif Ffrwd

## 1. Mesurau i atal ymlediad Covid-19

- Lle y bo'n bosib, dylai rhieni/gofalwyr deithio gyda'u plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, yn ddelfrydol ar droed, neu ar feic, sgwter neu unrhyw ddull arall o deithio llesol.
- Gall rhieni/gofalwyr ddewis peidio ag ymrwymo i'r contract cludiant ysgol os ydynt yn dymuno, a mynd â'u plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol eu hunain.
- Ni fydd rhieni/gofalwyr yn anfon eu plentyn i'r ysgol os yw'n datblygu symptomau Covid-19. Bydd rhieni/gofalwyr yn dilyn protocol absenoldeb yr ysgol.
- Os yw eu plentyn, neu aelod o'r un cartref, yn dangos symptomau COVID, bydd yn hunanynysu'n unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) neu'r GIG.
- Os yw eu plentyn yn datblygu symptomau yn yr ysgol, bydd y rhieni yn casglu eu plentyn ac yn mynd ag ef adref cyn gynted â phosib ac yn hunanynysu'n unol â chanllawiau'r ICC neu'r GIG.
- Bydd disgyblion yn parhau i ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Bydd rhieni/gofalwyr yn cynghori eu plant i orchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian pan na fyddant gartref e.e. mewn cerbyd cludiant ysgol; yn yr ysgol;
- Wrth i ddisgyblion fynd i mewn i'r cerbyd neu ddod allan ohono, dylent fod yn ystyriol o'r canlynol:
    - Bod yn ymwybodol o'r arwynebau maen nhw'n eu cyffwrdd. Ceisio cyffwrdd â chyn lleied o arwynebau â phosib. Defnyddio hylif diheintio dwylo os ydynt yn gwneud hynny.
    - Bod yn ofalus nad ydynt yn cyffwrdd â'u hwynebau. Mynd â hancesi gyda nhw a gorchuddio'u ceg â hances wrth besychu neu disian neu ddefnyddio rhywbeth arall fel rhan y benelin o'u llewys os ydynt wedi anghofio dod â hancesi gyda nhw, er mwyn lleihau ymlediad diferion.
    - Golchi eu dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo ar ddechrau a diwedd eu taith.

## 2. Mesurau i Sicrhau Cadw Pellter Cymdeithasol

### a. Wrth fannau codi a gollwng

- Bydd rhieni/gofalwyr yn dweud wrth eu plant am ofynion cadw pellter cymdeithasol COVID19 a'r gofyniad i olchi dwylo yn rheolaidd.
- Rhaid cadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn lleihau ymlediad feirws COVID-19; mae hyn yn cynnwys aros wrth y safle bws dynodedig. Dylid cadw pellter cymdeithasol wrth y mannau codi a gollwng lle bynnag y bo hynny'n bosib.
- Dylai disgyblion giwio mewn un llinell gan gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr wrth fynd i mewn i'r cerbyd neu ddod allan ohono.

- Dylai rhieni/gofalwyr a disgyblion ymddwyn yn ystyriol tuag at deithwyr eraill trwy fod yn barod i giwio a pharchu lle personol pobl eraill wrth fynd i mewn i'r cerbyd neu ddod allan ohono.
- Yn y mannau gollwng ar y daith adref bydd disgyblion yn dod allan o'r bws fesul un, gan gadw pellter cymdeithasol, dan oruchwyliaeth y gyrrwr, gyda'r rheini ym mlaen y cerbyd yn dod allan yn gyntaf.
- Gyda'r gostyngiad a reolir yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio cludiant ysgol, mae cadw pellter cymdeithasol yn y cerbyd yn gyraeddadwy. Mae gwisgo gorchudd wyneb yn ddewisol ac yn benderfyniad i'r rhiant/gofalwr, gan nad yw gorchuddion wyneb yn addas i bawb e.e. plant ifanc; y rheini sy'n dioddef o asthma, y rheini â nam ar y clyw, oherwydd gallai gynyddu'r risg neu'r lledaeniad yn anfwriadol.
- Gall disgyblion wisgo'u gorchuddion wyneb eu hunain wrth ddefnyddio cludiant ysgol os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Mae'n bwysig bod rheini, disgyblion a staff ysgolion yn deall bod mesurau eraill megis cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo'n rheolaidd yn parhau i fod o'r pwys pennaf ac ni ddylid llacio'r mesurau hyn wrth wisgo gorchudd wyneb.
- Gall disgyblion o'r un aelwyd eistedd ar bwys ei gilydd ar y cerbyd os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

**b. Ar y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol**

Er mwyn cadw pellter cymdeithasol yn y cerbyd, gweithredir y dulliau rheoli canlynol:

- o Gostyngiad yn nifer y disgyblion a ganiateir ar y bws ysgol e.e. bydd bws â 49 o seddi yn darparu lle i 12 o deithwyr gan ddibynnu ar y cynllun eistedd.
- o Cynyddu nifer y teithiau i gyd-fynd ag amserau agor/cau cyfnodol ysgolion.
- o Defnyddio rhagor o gerbydau.
- o Bydd un sedd ym mhob rhes, ar ffurf igam-ogam, ar gael a bydd eraill 'ddim yn cael eu defnyddio'. Bydd y rhain wedi cael eu rhwystro neu wedi'u marcio'n briodol.
- o Dylai disgyblion eistedd ar y seddi dynodedig sydd ar gael yn unig.
- o Bydd arwyddion gwybodaeth yn cael eu harddangos ar y cerbyd.

- Dylid cadw pellter cymdeithasol gydag unrhyw ryngweithio rhwng staff y cerbyd a disgyblion yn ystod y daith. Ar yr adegau pan nad yw hyn yn bosib, rhaid sicrhau cyn lleied o gyswllt â phosib a rhaid gwisgo a cyfarpar amddiffynnol priodol (PPE).
- Bydd disgyblion yn parhau i ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Bydd y gyrrwr yn monitro ymddygiad disgyblion ac yn cyfathrebu â disgyblion o'i sedd i gadarnhau ymddygiad da a'r neges cadw pellter cymdeithasol. Cyfathrebir trwy radio llaw y gyrrwr lle bo hynny'n bosib.
- Cynghorir disgyblion i orchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian.
- Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod awyriad da yn y cerbyd yn ystod y daith.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, bydd y gyrrwr yn dweud wrth yr ysgol fel y gellir trefnu i'r rhieni ei gasglu. Dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol yn yr ysgol lle bynnag y bo modd er mwyn atal ymlediad yr haint.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, bydd y gyrrwr yn sicrhau diogelwch y disgybl wrth y man gollwng.

### c. Codi a gollwng yn yr ysgol

- Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau y cedwir at drefniadau codi a gollwng yr ysgol.
- Er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio cludiant ysgol, efallai y bydd amserau agor/cau yr ysgolion yn rhai cyfnodol.
- Ym man gollwng yr ysgol:
  - Bydd y gyrrwr neu'r cynorthwywyr teithwyr yn atgoffa disgyblion i gadw pellter cymdeithasol wrth adael y bws.
  - Dywedir wrth ddisgyblion i adael yn drefnus, un ar y tro, gan gadw gofynion cadw pellter cymdeithasol.
  - Bydd y disgyblion sy'n eistedd agosaf at flaen y cerbyd yn gadael yn gyntaf a bydd y disgyblion eraill yn gadael wedi hynny. Y disgybl sy'n eistedd yng nghefn y bws fydd y person olaf i adael.

  Ym man codi'r ysgol:
- Bydd y disgyblion sy'n cael eu gollwng ddiwethaf yn dod ar y cerbyd yn gyntaf ac yn eistedd yn y cefn fel y bydd y rheini sy'n byw agosaf at yr ysgol yn eistedd yn y seddi agosaf at flaen y cerbyd.

## 3. Glanhau

- Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau bod y cerbyd yn cael ei lanhau’n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:
  - Nodi mannau risg uchel yn y cerbyd sy'n debygol o gael eu cyffwrdd yn rheolaidd e.e. canllawiau; dolenni drysau; y botwm sy'n agor y drws, gwregysau diogelwch.
  - glanhau/diheintio'r mannau 'cyffwrdd' a nodwyd yn amlach. Dylid gwneud hyn o leiaf cyn ac ar ôl pob taith.
  - Glanhau'r cerbyd yn ddyddiol yn unol â’r weithdrefn arferol.
  - Glanhau'r cerbyd yn drylwyr - yn wythnosol.
  - Dylid cadw cit i lanhau unrhyw hylif a gollir yn y cerbyd er mwyn cynorthwyo wrth lanhau hylifau corfforol e.e. cyfog
  - Dylid cadw chwistrell/hancesi sychu diheintiol yn y cerbyd.
  - Dylid glanhau pympiau tanwydd cyn ac ar ôl eu defnyddio.
  - Mae'n rhaid glanhau allweddi'r cerbyd cyn ac ar ôl eu trafod.

**Atodiad B**

# Arweiniad i Rieni a Disgyblion - Gwasanaethau Cludiant Ysgol i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Arbennig)

## 1. Mesurau i osgoi ymlediad COVID- 19

- Ni fydd rhieni/gofalwyr yn anfon eu plentyn i'r ysgol os yw'n datblygu symptomau COVID-19. Bydd rhieni/gofalwyr yn dilyn protocol absenoldeb yr ysgol.
- Os yw eu plentyn, neu aelod o'r un cartref, yn dangos symptomau COVID, mae'n rhaid iddo hunanynysu'n unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) neu'r GIG.
- Os yw eu plentyn yn datblygu symptomau yn yr ysgol, bydd y rhieni/gofalwyr yn casglu eu plentyn ac yn mynd ag ef adref cyn gynted â phosib er mwyn hunanynysu'n unol â chanllawiau ICC neu'r GIG.
- Bydd disgyblion yn parhau i ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Gall rhieni/gofalwyr ddewis peidio ag ymrwymo i'r contract cludiant ysgol os ydynt yn dymuno, a mynd â'u plentyn yn ôl ac ymlaen i'r ysgol eu hunain.
- Mae gwisgo gorchudd wyneb yn ddewisol. Nid yw gorchuddion wyneb yn addas i bawb e.e. plant ifanc; y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau e.e. nam ar y clyw. Mae'n bwysig bod rhieni, disgyblion a staff ysgol yn deall bod mesurau eraill megis cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo'n rheolaidd yn parhau i fod o'r pwys pennaf ac ni ddylid llacio'r mesurau hyn wrth wisgo gorchudd wyneb
- Lle y bo'n bosib, er mwyn helpu dealltwriaeth, bydd rhieni a'r ysgol yn annog plant i wneud y canlynol:
    - gorchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian pan nad ydynt gartref e.e. yn yr ysgol, mewn tacsi/bws mini.
    - defnyddio hances neu benelin os ydynt yn pesychu neu'n tisian, a thaflu'r hances mewn bin (ei ddal, ei daflu, ei ddifa)
    - peidio â chyffwrdd â'u ceg, llygaid a thrwyn
    - golchi'u dwylo wrth gyrraedd yr ysgol, cyn ac ar ôl bwyta ac ar ôl tisian neu besychu.
- Yn yr ysgol, bydd staff yn cynorthwyo'r disgyblion hynny sy'n cael trafferth glanhau eu dwylo'n annibynnol.

## 2. Mesurau i sicrhau cadw pellter cymdeithasol

### a. Yn y cerbyd

Er mwyn cynorthwyo i gadw pellter cymdeithasol bydd y cyngor yn gwneud y canlynol:

- Ni fydd yn defnyddio cerbydau math salŵn â 5 sedd i gludo disgyblion ag ADY oni bai y gellir cadw pellter o 2 fetr rhyngddynt.
- Cyfyngu nifer y teithwyr i 1 disgybl fesul cerbyd sy'n debyg i gar.
- Defnyddio cerbydau mwy fel cerbydau amlbwrpas (MPV); cludwyr pobl; tacsis o fath Llundain i gludo disgyblion ag ADY.

- Defnyddio cerbydau â theclyn codi yn y cefn e.e. bysus mini, i gludo teithwyr sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a bwerir gan fatri, sy'n tueddu i fod yn fwy ac yn drymach na chadeiriau olwyn safonol.
- Cynyddu nifer y teithiau lle bo'u hangen i gyd-fynd ag amserau agor/cau cyfnodol ysgolion.
- Bydd y disgybl cyntaf yn cael ei roi i eistedd yn sedd gefn y cerbyd a'i ddiogelu gan wregys diogelwch. Bydd eistedd ar y sedd ar y dde neu'r chwith yn dibynnu ar ddyluniad y cerbyd; cyn belled ag y bo'n rhesymol, dylid sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol o 2m o ran nifer y rhesi o seddau yn y cerbyd a'r ystyriaeth ynghylch lle bydd y cynorthwyydd teithwyr yn eistedd. Er enghraifft:
    - Mewn tacsis o fath Llundain, gall y cynorthwy-ydd teithwyr eistedd ar y sedd fach y tu ôl i'r gyrrwr (sy'n cael ei ddiogelu gan bared plastig) a gall y disgybl eistedd ar y chwith yn y sedd gefn.
    - Ar gyfer MPV neu dacsis o fath cludwr pobl, gall teithwyr eistedd ar ffurf igam-ogam yn y 2 res o seddi y tu ôl i'r gyrrwr.

- Mae'n rhaid i'r cynorthwywyr teithwyr eistedd yng nghefn y cerbyd gyda'r disgybl i gyflawni'i rôl ofalu/oruchwylio.
- Lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol o 2m, neu os bydd angen i'r cynorthwy-ydd teithwyr ymyrryd os bydd digwyddiad penodol yn ystod y daith, rhaid iddo wisgo cyfarpar amddiffynnol priodol (PPE) e.e. mwgwd wyneb, menig tafladwy.

**b. Codi a gollwng yn yr ysgol**

- Wrth godi'r plentyn gartref, bydd y gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr yn gallu cadarnhau statws iechyd COVID y disgybl a'r teulu. Os yw'r disgybl yn dangos symptomau COVID-19, bydd y gyrrwr yn dweud wrth y rhiant a'r ysgol nad yw'n gallu'i gludo.
- Ar gyfer codi a gollwng gartref, lle y bo'n bosib, bydd rhieni'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynd i mewn ac yn dod allan o'r cerbyd yn ddiogel.
- Y gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr sy'n gyfrifol am osod cadeiriau olwyn yn ddiogel yn y cerbyd wrth i'r plentyn ddod i mewn iddo a'i adael.
- Wrth godi'r plentyn a'i ollwng yn yr ysgol, bydd angen i'r cynorthwy-ydd teithwyr drosglwyddo neu gasglu'r plentyn y uniongyrchol i/oddi wrth aelod o staff ar safle'r ysgol. Gan ddibynnu ar y cymorth sydd ei angen ar y disgybl e.e. dal ei law, gwthio'r gadair olwyn, bydd angen sicrhau bod dwylo'n lân cyn codi a gollwng y plentyn. Rhaid golchi'r dwylo am o leiaf 20 eiliad; neu mae defnyddio hylif diheintio dwylo yn effeithiol. Bydd yr un hylendid dwylo'n berthnasol hyd yn oed os yw darparwr y cludiant yn rhoi menig tafladwy i'w staff.
- Lle y bo'n bosib, bydd gyrwyr, cynorthwywyr teithwyr a staff ysgol yn cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr wrth godi'r plentyn a'i ollwng yn yr ysgol i leihau cyswllt rhwng oedolion. Lle nad yw hyn yn bosib, rhaid gwisgo PPE e.e. mwgwd wyneb
- Lle y bo'n bosib, dylid annog disgyblion i gau ac agor eu gwregys diogelwch eu hunain. Lle nad yw hyn yn bosib, er enghraifft, wrth gludo disgyblion ADY ag anghenion cymhleth neu y mae angen cymorth arnynt i fynd i mewn i'r cerbyd neu gau gwregysau diogelwch, bydd y cynorthwy-ydd teithwyr yn cynorthwyo'r disgybl ac yn gwisgo PPE priodol

**c. Ar y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol**

- Dylid cadw pellter cymdeithasol yn ystod unrhyw ryngweithio rhwng y gyrrwr, y cynorthwy-ydd teithwyr a'r disgybl yn ystod y daith. Ar yr adegau pan nad yw hyn yn bosib, a chan ddibynnu ar yr amgylchiadau, dylid sicrhau cyn lleied o gyswllt â phosib a dylid gwisgo PPE priodol.
- Mae'n rhaid i'r disgyblion ddilyn 'Côd Ymddygiad Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol' Cyngor Abertawe.
- Dylid dweud wrth y disgyblion i orchuddio'u ceg a'u trwyn â hances neu eu penelin wrth besychu neu disian.
- Bydd y gyrrwr yn sicrhau bod awyriad da yn y cerbyd yn ystod y daith.
- Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith i'r ysgol, bydd y gyrrwr yn dweud wrth yr ysgol fel y gellir trefnu i'r rhieni ei gasglu. Os yw disgybl yn mynd yn sâl yn ystod y daith adref, bydd y gyrrwr yn dweud wrth y rhiant. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, dylid parhau i gadw pellter cymdeithasol lle bynnag y bo modd er mwyn atal ymlediad yr haint neu os nad yw hyn yn bosib, dylai staff wisgo PPE addas e.e. menig tafladwy, ffedog, mygydau llawfeddygol sy'n gwrthsefyll hylif (FRSM).

## 3. <u>Glanhau</u>

- Bydd contractwr cludiant yr ysgol yn sicrhau bod y cerbyd yn cael ei lanhau'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru:
  - Dylai gyrwyr lanhau arwynebau y mae'r teithiwr yn debygol o gyffwrdd â nhw e.e. dolenni drysau, dolenni ffenestri, gwregysau diogelwch, cefn y seddi blaen ac arwynebau eraill y gall teithwyr fod wedi'u cyffwrdd neu beswch/dision arnynt ar ôl bob taith lle cludir teithiwr. Dylai'r gyrrwr olchi/ddiheintio'i ddwylo'i hunan ar ôl glanhau.
  - Dylid glanhau'r cerbyd yn drylwyr gyda chynnyrch glanhau arferol ar ddiwedd bob shifft/diwrnod gwaith.
  - Dylid cadw cit i lanhau unrhyw hylif a gollir yn y cerbyd er mwyn cynorthwyo wrth lanhau hylifau corfforol e.e. cyfog
  - Dylid defnyddio hancesi sychu diheintiol i lanhau pympiau tanwydd cyn ac ar ôl eu defnyddio.
  - Mae'n rhaid glanhau allweddi'r cerbyd cyn ac ar ôl eu trafod.